**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**
**BBC Cymru, Y Sgwâr Canolog, Caer-dydd**
**COFNODION**

4ydd Mehefin 2024

**EITEMAU BUSNES**

1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru, cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru
3. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd
4. Cynulleidfaoedd
5. Cyllid
6. Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol (Cadeirydd Dros Dro)
- Michael Plaut, Cyfarwyddwr Anweithredol (Aelod dros Gymru)
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Y Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Gareth Davies, Uwch Bennaeth Marchnata *(ar gyfer eitem 4)*
- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol *(Ysgrifennydd)*
- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid (*ar gyfer eitem* 5)
- Kate Phillips, Cyfarwyddwr Comisiynu, Di-sgript.

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC**
**4ydd Mehefin 2024**

## 1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a llongyfarchodd Michael Plaut ar ei benodiad fel yr aelod dros Gymru a Chadeirydd y Pwyllgor.

1.2 Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (21ain Chwefror 2024) ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthdaro newydd.

1.3 Cymeradwywyd y testun ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## 2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru

2.1 Llongyfarchodd y Cyfarwyddwr y Cyfarwyddwr Anweithredol dros Gymru ar ei benodiad.

2.2 Amlinellodd y Cyfarwyddwr y cynlluniau golygyddol ar gyfer ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol, gan gynnwys cadw at reolau didueddrwydd a'r sylw a roddir i'r prif bleidiau a'r pleidiau llai.

2.3 Byddai ymrwymiad sylweddol i'r DU-gyfan yn allbwn yr Etholiad Cyffredinol.

2.4 Clywodd y Pwyllgor y byddai cynnwys yr Etholiad yn cael ei gynhyrchu ar bob platfform ac ar gyfer S4C, gydag ar-lein, cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r nifer fawr sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, yn flaenoriaethau.

2.5 Mae Lost Boys and Fairies wedi lansio ar iPlayer a'i ddarlledu. Dyma stori dair rhan am fabwysiadu a ysgrifennwyd gan y Cymro, Daf James.

2.6 Mae Mammoth, y comedi cyntaf a gyd-gomisiynwyd gan BBC Cymru a'r Rhwydwaith, wedi'i ail-gomisiynu am wyth pennod a rhifyn arbennig adeg y Nadolig.

2.7 Mae uchafbwyntiau teledu rhwydwaith yn cynnwys tymor presennol Doctor Who, a'r cyhoeddiad am rifyn arbennig o Gavin and Stacey adeg y Nadolig.

2.8 Roedd ffigurau cynulleidfaol RAJAR yn sefydlog ar gyfer BBC Radio Wales a Radio Cymru.

2.9 Bu timau darlledu radio yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd ym Meifod a byddai'n ymweld â'r Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

2.10 Byddai'r cyfarfod nesaf o Bwyllgor Cymru yn clywed adolygiad o gynlluniau chwaraeon digidol oddi wrth Gadeirydd y gweithgor.

2.11 Byddai'r Cyfarwyddwr yn dosbarthu crynodeb o ganlyniadau arolwg staff y BBC yng Nghymru i aelodau.

2.12 Byddai cyfarfod rhwng timau rheoli BBC Cymru a S4C i drafod y berthynas waith y tu hwnt i'r ymrwymiadau a nodir yn y ddeddfwriaeth.

2.13 Byddai hyfforddiant yn cael ei gynnal ar gyfer deg o 'bencampwyr didueddrwydd' BBC Cymru.

2.14 Mae’r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd. Mae cydweithwyr o BBC Radio Nan Gaidhael yn darlledu o’r Sgwâr Canolog. Mae digwyddiadau eraill yn cynnwys derbyniad yn y Senedd a digwyddiad yng Nghlwb Ifor Bach.

**3. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

3.1 Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at lwyddiant Ar Draws y DU wrth bortreadu rhanbarthau Lloegr a’r Cenhedloedd datganoledig. Mae cynnal y cynnwys hwn yn her yn y flwyddyn ariannol nesaf.

3.2 Byddai her arbedion pellach ar ben y targedau ariannol presennol. Gallai hyn arwain at broses o ddiswyddiadau gwirfoddol.

3.3 Mae maint y cynllun arbedion ar draws BBC Cymru eto i’w benderfynu.

3.4 Mae darn o waith ar y gweill i integreiddio cynhyrchion ar-lein i un profiad i gwsmeriaid yn hytrach na'r defnydd presennol o apiau lluosog.

**4. Cynulleidfaoedd**

**4**.1 Clywodd y Pwyllgor grynodeb o berfformiad cynulleidfaol cynnwys BBC Cymru.

4.2 Nododd y Pwyllgor bod perfformiad gwrando sain y BBC yn well yng Nghymru o’i gymharu â’r cenhedloedd eraill.

4.3 Roedd BBC Cymru wedi bodloni targedau cynulleidfaol ym mlwyddyn ariannol 2023/2024. Cynnwys sy’n portreadu wedi perfformio’n well na’r cyfartaledd oddi mewn i Gymru.

4.4 Roedd nifer y cyfrifon gweithredol wythnosol a oedd yn troi at gynnwys BBC Cymru ar iPlayer yn ystod blwyddyn ariannol 23/24 yr uchaf erioed. Roedd y perfformiad yn ddibynnol ar gyd-gomisiynau gyda Rhwydwaith, yn enwedig dramâu.

4.5 Y pwyslais ar dwf sain yng Nghymru yw tyfu faint sy’n gwrando ar bodlediadau digidol.

4.6 Mae lefelau gwylio newyddion ar deledu yng Nghymru ar darged er gwaethaf gostyngiad mewn gwylio llinol yn gyffredinol.

4.7 Byddai’r Aelod newydd dros Gymru yn mynychu sesiwn Cyfarfod Cynulleidfaol Wyneb-yn- Wyneb Rhithiol (VIP) i glywed safbwyntiau cynulleidfaoedd yng Nghymru ar ôl y cyfarfod.

**5. Cyllid**

5.1 Adolygodd y pwyllgor ffigurau drafft yr adroddiad blynyddol a chyfrifon.

5.2 Mae ffigurau nifer y staff yn yr adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfanswm cyfartalog ar draws y flwyddyn ac yn adlewyrchu'r staff Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a gyflogir gan y BBC. Nid yw’n cynnwys staff a gyflogir gan is-gwmnïau masnachol, Studios a StudioWorks. Nid yw'n cynnwys gweithwyr llawrydd ac achlysurol.

5.3 Mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, roedd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hefyd yn cynnwys tabl yn dangos nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd yn uniongyrchol i gefnogi'r gwasanaeth a gynhyrchwyd yng Nghymru.

**6. Unrhyw Fater Arall**

6.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau’r Pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

6.2 Byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gyfathrebu.

6.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

**Daeth y cyfarfod i ben**